

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd ar
Zoom
Nos Fawrth, Hydref 19, 2021 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Karen G. Goswell (Cadeirydd), Gerallt Griffith, Llion Rh. Williams, Barry Jones, Rhun Prys Jones, Huw Evans, Peredur Jenkins, Emllyn Roberts. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb.

2. Ymddiheuriadau: Mordaf Roberts a Meurig Ashton.

3. Datgan diddordeb.

Doedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 21, 2021

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 21, 2021

Eitem 6.a. Wedi gwneud ymoliadau gyda Un Llais Cymru cafwyd gwybod (6/9/2021) nid yw'n arferiad da i gynnwys yr eitem ar yr Agenda.

Ar agenda cyfarfodydd Un Llais Cymru mae eitem 'Unrhyw faterion arall yn ôl doethineb y Cadeirydd' yn cael ei gynnwys.

Penderfynwyd cael eitem 'Materion yr Aelodau' yn lle eitem 'Unrhyw fater arall'. Mae disgwyl i'r aelodau rhoi gwybod y materion i'r Clerc cyn bydd yr Agenda yn cael ei anfon allan. Os bydd mater yn cyrraedd yn hwyr mi fydd yn cael ei gynnwys yn yr Agenda cyfarfod nesaf. Bydd y Clerc yn anfon ffurflen i'r aelodau i'w llenwi yn rhoi y manylion.

Eitem 6.ff. Penderfynwyd gwahodd y Swyddog i gyfarfod yr aelodau twy Zoom i gael y wybodaeth mae hi ei hangen. Penderfynwyd hefyd i'r Swyddog rhoi dyddiad sy'n gyfleus iddi hi.

Eitem 8.c. O'r newidiadau HSBC UK mi fydd ein cyfrif banc yn 'Small Business Banking Account', cost o £8.00 y mis, a chost o £1.50 i dalu siec i'r banc. Wrth ddefnyddio pethau electronig does dim costau ond mi fydd angen talu'r £8.00 y mis.

Llythyr (14/10/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae gan Cynghorau Cymuned yr hawl i ddefnyddio bancio electronig.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (22/9/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o gyrsiau am fis Medi/Hydref.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (23/9/2021) oddi wrth Cymdeithas yr Iaith yn rhoi gwybod am daith beicio bydd yn cymryd lle ar 11 a 13 Tachwedd o Gaernarfon i Gaerdydd i dynnu sylw at argyfwng tai yn Cymru. Amgáu mae llythyr i'r cynghorwyr arwyddo i roi gwybod maent yn hapus i ychwanegu eu henwau i'r Llywodraeth reoli'r farchnad dai.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (22/9/2021) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd angen gwybod pa finiau halen sydd angen eu llenwi. Maent angen gwybod cyn Tachwedd 1, 2021. Y gost fydd £46 y bin.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Mae angen llenwi biniau halen Frirdd Goch i Capel Ffrwd (BH3), Doluwchadda (BH5), Rhedyncochion (BH6), Drwsynant (BH14).

ch. Llythyr (3/10/2021) oddi wrth Cylch yr Iaith yn rhoi gwybod gall y Cyngor wrthwynebu cais cynllunio ar sail bygythiad datblygiad i'r iaith Gymraeg yn y gymuned.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (7/10/2021) yn rhoi manylion o'u prosiect newydd gyda Chambers Conservation 'Ardaloedd Cadwraeth sy'n addas ar gyfer yn Unfed Ganrif ar Hugain'. Mae'r ardaloedd gadwriaeth gyda diddordeb pensaerniol neu bwysigrwydd hanesyddol, ble mae cymeriad neu edrychiad yn ddymunol i'w ddiogelu neu fireinio. Bydd y prosiect yn cael ei wneud rhwng mis Hydref 2021 – mis Mawrth 2022 i ddatblygu Gwerthusiad a Chynlluniau Rheoli er mwyn eu defnyddio i warchod a datblygu'r Ardaloedd Cadwraeth.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

8. Materion Ariannol

a. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/9/2021: £1,141.38.
Balans yn y banc ar 29/9/2021: £11,768.10. (29/9/2020: £7,848.58).

9. Archwilio

a. Llythyr (27/9/2021) oddi Archwilio Cymru yn rhoi gwybod (i bob cyngor) mae gwaith archwilio ar y gweill ac mae nifer o amgylchiadau annisgwyl wedi arwain at rywfaint o oedi i'r gwaith. Os na fyddwn wedi derbyn Tystysgrif Archwilio ganddynt cyn y 30ain o Fedi, mae angen gyhoeddi'r hysbysiad (amgau) mewn man amlwg yn y gymuned ac ar ein gwefan. Gallwn wedyn gyhoeddi ein ffurflen flynyddol ar ein gwefan fel y nodir yn yr hysbysiad.

Rhoddwyd yr hysbysiad ar ein gwefan.

10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Mae Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru yn gwneud ymdrech i ddatrys y broblem gymleth o ddiffyg tai i enwedig pobl ifanc.

11. Unrhyw fater arall

a. Cafwyd wybod bod yr hysbysfwrdd newydd wedi cael ei osod ar wal lloches bws Llanfachreth. (Gweler Cofnodion Gorffennaf 20,2021, Eitem 9.b).

Diolchwyd i'r aelodau cyfranodd i gael yr hysbysfwrdd a phenderfynwyd rhoi eitem yn Llygad y Dydd am yr hysbysfwrdd.

Llofnod:

Dyddiad:
